# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Ionawr 2020

Amser: 13.02 - 14.31

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5878

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Darren Millar AC (yn lle Nick Ramsay AC) |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Dave Thomas |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Nick Ramsay AC, Cadeirydd y Pwyllgor. Roedd Darren Millar AC yn dirprwyo.

1.2 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22. Enwebodd Jenny Rathbone AC Darren Millar AC, a gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.2 Cytunwyd ar y camau a ganlyn:

- **Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru**: Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ymateb i'r Llywodraeth yn gofyn am adroddiad sefyllfa ar y broses benodi ar gyfer y Prif Swyddog Digidol ynghyd â diffiniadau clir o rolau'r Swyddogion Digidol amrywiol ac amserlen ar gyfer y penodiadau hyn.
- **Caffael Cyhoeddus**: Cytunodd y Cadeirydd i ofyn i Lywodraeth Cymru pa ystyriaethau, os o gwbl, a roddwyd i'r effaith bosibl y gallai unrhyw dariffau yn y dyfodol ei chael ar gaffael.
- **Craffu ar Gyfrifon 2018-19**: Cytunodd y Cadeirydd i gynghori Llywodraeth Cymru y bydd y Pwyllgor yn dod yn ôl at y mater ynghylch defnydd mewnol o'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru yn ystod gwaith craffu blynyddol ar gyfrifon yn hydref 2020.
- **Rheoli Gwastraff**: Cytunodd y Pwyllgor i fwydo eu safbwyntiau i ymgynghoriad presennol Llywodraeth Cymru.
- **Rheoli Meddyginiaethau**: Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am adroddiad cynnydd ar y mentrau i wella presgripsiynau amlroddadwy a lleihau gwastraff ac ar wella'r gwaith o storio meddyginiaethau, gan nodi nad yw'r canllawiau diwygiedig a gafodd eu haddo wedi cael eu cyhoeddi eto.
- **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**: Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Cyfathrebu, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gyda'u barn.
- **Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Cymuned**: Gofynnodd y Pwyllgor i'r llythyr gan Lywodraeth Cymru gael ei anfon ymlaen at y Pwyllgor Cyfathrebu, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

- **Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood:** Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am esboniad pellach ar y wybodaeth sydd yn y llythyr.

**2.1 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (22 Tachwedd 2019)**

**2.2 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (25 Tachwedd 2019)**

**2.3 Caffael Cyhoeddus: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (4 Rhagfyr 2019)**

**2.4 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (5 Rhagfyr 2019)**

**2.5 Rheoli Gwastraff: Gwybodaeth ychwanegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Rhagfyr 2019)**

**2.6 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (9 Rhagfyr 2019)**

**2.7 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (10 Rhagfyr 2019)**

**2.8 Rheoli Gwastraff: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (10 Rhagfyr 2019)**

**2.9 Rheoli meddyginiaethau: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (10 Rhagfyr 2019)**

**2.10 Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Cymuned: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (11 Rhagfyr 2019)**

**2.11 Gohebiaeth y Pwyllgor: Diwygio Etholiadol y Cynulliad (16 Rhagfyr 2019)**

**2.12 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth (23 Rhagfyr 2019)**

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yng Nghymru: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor ddogfen friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar eu Hadroddiad a chytunodd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn bod y diweddariad ar Wasanaethau y Tu Allan i Oriau a drefnwyd ar gyfer mis Gorffennaf 2020 hefyd yn cwmpasu'r camau a gymerwyd ar y 10 argymhelliad a gynhwysir yn Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

## 5 Maes Awyr Caerdydd: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (13 Rhagfyr 2019)

5.1 Trafododd yr Aelodau'r llythyr a hefyd y penawdau o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Maes Awyr Caerdydd 2018-19, a gyhoeddwyd ddiwedd mis Rhagfyr 2019.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Llywodraeth, i ofyn am eglurhad pellach ar nifer o faterion, cyn eu sesiwn graffu arfaethedig yn ddiweddarach y tymor hwn.

## 6 Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau: Trafod y llythyr drafft

6.1 Cytunwyd ar y llythyr drafft.

## 7 Cyfarwyddyd Gweinidogol - Trefniadau Pensiwn y GIG ar gyfer 2019/20

7.1 Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol wybodaeth i'r Pwyllgor am y Cyfarwyddyd Gweinidogol diweddar.

7.2 Cytunodd yr Aelodau i gynnal sesiwn graffu gyda'r Ysgrifennydd Parhaol i drafod y weithdrefn.

7.3 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Gyllid a Thollau EM i ofyn am eu barn ar y Cyfarwyddyd Gweinidogol diweddar.

7.4 Cytunodd y Cadeirydd hefyd i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'r Pwyllgor Cyllid yn eu cynghori ynghylch penderfyniad y Pwyllgor a gofyn iddynt graffu ar waith y Gweinidogion perthnasol ar y goblygiadau cyllidebol fel rhan o'r sesiynau craffu cyllideb sydd ar ddod.